**CYNGOR CYMUNED LLANDYSUL COMMUNITY COUNCIL**

**Cofnodion Cyfarfod Arbennig Cyngor Cymuned Llandysul Community Council a gynhaliwyd yng Nghanolfan Ieuenctid Tysul Youth Centre, Llandysul, ar 23 Chwefror 2015**

**Minutes of Special Meeting of Cyngor Cymuned Llandysul Community Council held at Canolfan Ieuenctid Tysul Youth Centre, Llandysul, on 23 February 2015**

**Yn Bresennol/Present**: Tom Cowcher Philippa Davies Douglas Davies Roy Davies Keith Evans Aled Jones Terry Griffiths Andrew Howell Aled Jones Cynghorydd Sir Peter Evans Abby Reid

**Cyrff Allanol/Outside Bodies**

Marian Bryant a Menna Davies Ymddiriedolwyr y Parc Coffa
Alwyn Phillips Cymdeithas Chwaraeon
Ymddiheuriadau gan/Apologies from Gareth Bryant Pwll Nofio

1. **Ymddiheuriadau/Apologies** Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Eileen Curry Wyn Evans, Beth Davies a Chynghorydd Sir Peter Davies /Apologies were received from Wyn Evans, Beth Davies, Carolyn Reid Rees and County Councillor Peter Davies.

2. **Datgan Buddiannau/Declarations of Interest:** Dim/None
3. **Agenda** Roedd un peth wedi cael ei adael allan ar y bedwaredd eitem ar yr Agenda, a dylai'r Parc Coffa/Lle Chwarae i Blant fod wedi darllen y Parc Coffa/Lle Chwarae i Blant/Cymdeithas Chwaraeon.
4. **Parc Coffa**
   Anerchwyd y cyfarfod gan Mrs Marian Bryant, a wnaeth esbonio na fyddai Ceredigion yn darparu cyllid er mwyn cynnal a chadw'r Parc mwyach. Ar ôl mynd allan i dendr er mwyn torri'r porfa, mae gofalwr tir y Gymdeithas Chwaraeon yn torri'r porfa yn y Parc Coffa, gan gynnwys y Lle Chwarae i Blant. Y gost gyfan gwbl o dorri'r porfa a gwacau'r biniau ysbwriel a baw cŵn yw £3200 y flwyddyn. Ar hyn o bryd, mae'r Parc yn cael swm o £300 gan y Cyngor Sir fel rhent. Pan wnaeth y Cyngor Sir wneud y cytundeb gydag Ymddiriedolwyr y Parc Coffa, aeth Mrs Bryant ymlaen i esbonio ei fod yn cynnwys cymal, pe byddai'r Cyngor yn codi tâl am ddefnyddio'r maes parcio ar unrhyw adeg, y byddai'r rhent yn codi er mwyn adlewyrchu hyn. Ar hyn o bryd, nid yw'r Cyngor Sir yn ymateb i'r ceisiadau.

   Esboniodd y Cyngor Cymuned na fyddai'r Cyngor Sir yn talu am yr offer yn y Lle Chwarae i Blant o fis Ebrill. Mae hyn yn wir ar gyfer y 13 o leoedd chwarae y mae'r Cyngor yn gofalu amdanynt ar hyn o bryd. Yn hytrach na chysylltu â'r Cyngor Cymuned, roedd yr ymddiriedolwyr yn teimlo y dylai'r Cyngor Sir fod wedi cysylltu â Phwyllgor Rheoli y Parc Coffa. Penderfynwyd y dylai'r clerc gysylltu â Mr Paul Arnold er mwyn mynegi'r teimlad cryf hwn.

5. **Cymdeithas Chwaraeon**

Esboniodd Alwyn Phillips ar ran Cymdeithas Chwaraeon eu bod nhw wedi colli cyllid sylweddol gan y Cyngor Sir hefyd. Fel sefydliad, maent yn codi cryn dipyn o arian ac yn cynnal loteri chwaraeon. Gan eu bod yn cyflogi'r gofalwr tir, a chan gymryd y byddai'r loteri yn cynnig yr un incwm ac ymrwymiad gan yr aelodau, byddent yn wynebu diffyg o oddeutu £7500.

Esboniodd Cyng Abby Reid ei bod wedi bod yn ystyried cronfa dreftadaeth y loteri. Esboniodd hefyd bod posibilrwydd y byddai modd sicrhau cyllid ar gyfer y parc am y 3 blynedd nesaf os byddai'r cais yn cael ei wneud yn iawn, a chan ddefnyddio'r parc fel endid. Yn ogystal, cynigiodd fynychu unrhyw gyfarfod gydag Ymddiriedolwyr y Parc a'r Gymdeithas Chwaraeon er mwyn esbonio'r hyn a oedd yn ei ystyried.
Cynigiodd gydlynu'r cais am grant hefyd, a fyddai'n cynnwys elfennau o'r lle Chwarae i Blant, cynnal a chadw'r tir a hefyd, plac coffa yn y parc. Penderfynwyd y byddai Ymddiriedolwyr y Parc a'r Gymdeithas Chwaraeon yn mynd yn ôl i'w Pwyllgorau amrywiol er mwyn trafod y cynnig.

6. **Pwll Nofio**

Gan na chafwyd unrhyw gyflwyniad gan aelodau Pwyllgor y Pwll Nofio, penderfynwyd y byddai Cyng Peter Evans yn cael gwybodaeth erbyn y cyfarfod nesaf am eu cynlluniau a'u sefyllfa ariannol.

7. **Blodau**

Roedd y Cyngor Cymuned wedi cael gwybod gan Mr Paul Arnold na fyddai'r Cyngor Cymuned yn talu am y gwaith o roi dŵr i'r blodau yn Llandysul o fis Ebrill.

Roedd y gost y cyfeiriwyd ati yn y llythyr yn ymddangos yn uchel, a phenderfynodd yr aelodau y dylai'r clerc gysylltu â Paul Arnold

1. Cael eglurhad am y pris
2. A fyddai'r Cyngor Cymuned yn cael tancer dŵr
3. Gofyn am fap sy'n nodi lleoliad y blodau y maent yn gyfrifol am roi dŵr iddynt

8. **Tendrau Cynnal a Chadw**

Cafwyd tendrau gan M W Services a Meredith Williams.
Penderfynwyd y dylai M W Services gael y cysylltiadau canlynol
Llwybr troed o'r Ffawydd i'r Hen Ysgol Gynradd
75-80 Y Ffawydd
48 Y Ffawydd i Barc yr Ynn
Stryd y Ffynnon, Llandysul

Meredith Williams

Llwybr troed o'r Lloches Bws uwchben Ysgol Dyffryn Teifi i lawr i Afon Teifi
Plasydderwen
Maes Parcio Neuadd Tysul